# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

**RHAN 9**

AMRYWIOL

*Byrddau gwasanaethau cyhoeddus*

**165 Uno a daduno byrddau gwasanaethau cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

(1) Yn Rhan 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2), mae adran 47 (uno byrddau gwasanaethau cyhoeddus) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Hepgorer is-adran (3) (gofyniad bod yr un Bwrdd Iechyd Lleol yn aelod o bob bwrdd gwasanaethau cyhoeddus sy'n uno).

(3) Ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

"(5) Rhaid i fwrdd unedig, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei sefydlu, adolygu—

(a) y cynlluniau llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a

(b) yr amcanion lleol a nodir yn y cynlluniau hynny.

(6) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad o dan is-adran (5), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynlluniau a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (5)(a) a (b)—

(a) i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a

(b) yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.

(7) Caiff bwrdd unedig, os yw'n ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant—
  (a) daduno, neu
  (b) daduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).

(8) Caiff Gweinidogion Cymru, os ydynt yn ystyried y byddai hynny'n cynorthwyo i gyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant, gyfarwyddo bwrdd unedig—
  (a) i ddaduno, neu
  (b) i ddaduno yn rhannol (os gwnaeth tri bwrdd neu ragor uno i greu'r bwrdd unedig).

(9) At ddibenion is-adrannau (7) ac (8), mae bwrdd unedig—
  (a) yn daduno os yw'n peidio â bodoli a bod bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahân yn cael ei sefydlu ar gyfer ardal pob awdurdod lleol a oedd yn aelod o'r bwrdd unedig;
  (b) yn daduno yn rhannol—
    (i) os yw'n parhau i fodoli fel y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardaloedd dau awdurdod lleol neu ragor, a
    (ii) os sefydlir bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar wahân ar gyfer ardal pob awdurdod lleol sydd wedi peidio â bod yn aelod o'r bwrdd unedig.

(10) Rhaid i fwrdd gwasanaethau cyhoeddus a sefydlir ar ôl daduno neu ddaduno yn rhannol, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddo gael ei sefydlu, adolygu—
  (a) y cynllun llesiant lleol a oedd yn weithredol ar gyfer ei ardal yn union cyn iddo gael ei sefydlu, a
  (b) yr amcanion lleol a nodir yn y cynllun hwnnw.

(11) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl adolygiad o dan is-adran (10), rhaid i'r bwrdd baratoi a chyhoeddi ar gyfer ei ardal gynllun llesiant lleol a gaiff fabwysiadu'r cynllun a'r amcanion a grybwyllir yn is-adran (10)(a) a (b)—
  (a) i'r graddau y bo'r bwrdd yn ystyried bod hynny'n briodol, a
  (b) yn ddarostyngedig i'r diwygiadau a'r newidiadau hynny y mae'r bwrdd yn ystyried eu bod yn briodol.

(12) Cyn cyhoeddi cynllun o dan is-adran (6) neu (11), rhaid i fwrdd ymgynghori ag—
  (a) y Comisiynydd;
  (b) Gweinidogion Cymru;
  (c) unrhyw bersonau eraill y mae'r bwrdd yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.

(13) Rhaid i fwrdd anfon copi o gynllun llesiant lleol a gyhoeddir o dan is-adran (6) neu (11) at y personau a grybwyllir yn adran 44(6)."

(4) Mae Atodlen 14 yn gwneud diwygiadau i Ddeddfau a Mesurau o ganlyniad i is-adran (3).